

Gweithdy datblygu argymhellion ar gyfer System Casglu Data Pysgodfeydd

(Monitro cychod a chofnodi dalfa)

Gwahoddiad i weithdy rhanddeiliaid

Dyddiad: 9fed - 18fed Hydref 2018

Amser: I'w gadarnhau

Lleoliad: Swyddfa Llywodraeth Cymru, Caernarfon. 9fed Hydref 2018

Swyddfa Llywodraeth Cymru, Cyffordd Llandudno. 11fed Hydref 2018

Swyddfa Llywodraeth Cymru, Aberystwyth. 12fed Hydref 2018

Swyddfa Llywodraeth Cymru, Aberdaugleddau. 17eg Hydref 2018

Swyddfa Llywodraeth Cymru, Penllergaer, Abertawe. 18fed Hydref 2018

Annwyl Rhanddeiliaid,

Mae Adran Forol a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â phroject gan ddefnyddio arian Gorfodaeth Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) Rheoli a Gorfodi er mwyn datblygu System Casglu Data Pysgodfeydd ar gyfer cychod pysgota Cymru. Bydd y System yn cynnwys monitro'r cychod a recordio'r dalfeydd er mwyn gwella rheolaeth pysgota masnachol yn nyfroedd Cymru. Bydd o gymorth i sicrhau stociau cynaliadwy a chefnogaeth i'r diwydiant ar ôl gadael yr UE.

Yn rhannol â'r ymgysylltu, byddwn hefyd yn cynnal nifer o weithdai gyda'r diwydiant pysgota ac yn rhannu rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r System Casglu Data Pysgodfeydd. Bydd cyfle i chwi gyflwyno eich syniadau ynglŷn â dyluniad a gweithrediad y system newydd ac ychwanegu nodweddion a fydd o gymorth i chwi a'ch busnes, e.e., nodweddion diogelwch neu ddulliau marchnata dalfeydd.

Yn ystod y gweithdai byddwn yn rhannu rhagor o wybodaeth ynglŷn â gadael yr UE, yn enwedig gwybodaeth ynglŷn ag allforio cynnyrch pysgodfeydd. Rydym hefyd yn darparu systemau a chynhaliaeth ar gyfer y diwydiant. Hoffwn glywed unrhyw bryderon neu syniadau sydd gennych.

Cysylltwch â Swyddfa Pysgodfeydd Caergybi er mwyn cofrestru eich diddordeb yn y gweithdai. Defnyddiwch y manylion cyswllt isod erbyn 28ain Medi 2018 gan ddatgan eich dewis o leoliad.

E-bost: HolyheadMailbox@gov.wales

Rhif ffôn: 03000 625777

Yr eiddoch yn gywir,

Tim Croucher

Rheolwr Project Rheoli a Gorfodaeth Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF)